Bywyd a Greodd y Mynydd a Daeth y Mynydd y Fyw

Ian Vince

Hynod o beth yw gallu sefyll ar lan y môr a chodi eich golygon i gael gweld gwaelod y môr, ond mae'r rhyfeddod hwn yn bosib ar Draeth y Gorllewin yn Llandudno. Arferai'r clogwyni a'r llethrau a welir ym mhob pen i Fae'r Gogarth fod o dan y dŵr - olion creigiog hen wely môr bas a fodolai dros 325 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ond sydd wedi hen ddiflannu bellach. Nid yw hyn yn anghyffredin; crëwyd y rhan fwyaf o fynyddoedd o waddod wedi'i ddyddodi yn y cefnfor. Yr hyn sy'n arbennig am ucheldir calchfaen fel Pen-y-Gogarth a Thrwyn-y-Gogarth yw y cawsant eu creu'n wreiddiol ymhell o'r môr. Ni ddaeth y gwaddod a greodd y tirnodau hyn o erydiad tirffurf cynharach; cafodd ei adael gan organebau byw.

Cafodd yr ucheldir o gwmpas Llandudno ei ddyddodi'n wreiddiol mewn môr trofannol bas yn ystod yr Oes Garbonifferaidd, cyfnod o amser dwfn a oedd yn gyforiog o fywyd. Roedd traeth deheuol y cefnfor hwn yn symud yn barhaus, gyda'r môr o bryd i'w gilydd yn llifo a chilio am yn ail dros goedwig law iseldirol drwchus lle'r oedd pryfed gwas y neidr yn tyfu mor fawr â gwylanod a'r neidr filtroed yn tyfu i fod yn fedr a hanner o hyd. Roedd llifogydd parhaus dros lawr y goedwig yn gadael haenau o blanhigion marw a oedd yna'n cywasgu dros filiynau o flynyddoedd i greu gwythiennau glo de Cymru. *Glo-gynhwysol* yw ystyr carbonifferaidd.

Fel y gwythiennau glo yn y De, crëwyd y calchfaen Carbonifferaidd o gwmpas Llandudno o fywyd ei hun. Ffurfiwyd calchfaen y Gogarth o gregyn ac ysgerbydau allanol biliynau o fraciopodau, crinoidau a chwrelau. Pan gafodd y calchfaen ei ddyddodi gyntaf, roedd Cymru rhywle ar hyd y cyhydedd a'r hinsawdd yn debyg i'r Bahamas heddiw. Roedd Prydain hefyd bryd hynny rhywle yng nghanol uwch-gyfandir o holl dir y byd, cyfandir o'r enw Pangaea. Yn Pangaea, byddai cerdded o Landudno i Efrog Newydd wedi cymryd tua mis, cyn aros wedyn am tua 330 miliwn o flynyddoedd.

Wrth i'r cyfandiroedd wasgu i'w gilydd i greu Pangaea, yn y gogledd ffurfiwyd mynyddoedd y Celyddon - cadwyn fynyddoedd mor uchel â rhai'r Himalaya heddiw - gan erydu'n raddol i lawr i Ucheldiroedd yr Alban. Yn ystod y cyfnod hwn o greu mynyddoedd y crëwyd mynydd y Gogarth. O'r promenâd gallwch hyd yn oed weld plyg neu grych y gwelyau creigiog uwchben Gwesty'r Grand o dan beilonau'r car cebl.

Diferodd ddŵr mwynol i mewn i'r holltau a grëwyd wrth i'r tir ymgodi a chrychu fel rỳg ar lawr tŷ. Crisialodd gopor tawdd yn fwyn o'r enw malachit ac yn yr Oes Efydd byddai digon o'r mwyn hwn yn cael ei gloddio o fwynglawdd Pen-y-Gogarth i wneud

o leiaf deg miliwn o bennau bwyeill. Y Gogarth oedd un o'r safleoedd diwydiannol mwyaf yn y byd yn yr Oes Efydd.

Mewn rhannau eraill o'r byd, saif y mynyddoedd ar wahân. Mae mwg coed yn llenwi llawr y dyffryn lle mae amaethyddiaeth, diwydiant ac anghenion materol pobl yn galw, ond mae'r mynydd yn gartref i'r ysbryd, yn arwydd o barhad a symbol o lonyddwch. Wrth arfordir Cymru, fel arall yr oedd hi. Roedd y mynyddoedd yn fwrlwm o ddiwydiant – mwyngloddiau a chwareli – ac yn y dyffrynnoedd ger yr arfordir roedd gan fwcedi a rhawiau glan môr bwrpas cwbl wahanol i bwrpas y mynyddoedd.

Mae llawer o hyn wedi'i droi ben ei waered a'i ddisodli gan dechnoleg, y byd modern a chan rymoedd di-dderbyn-wyneb economeg a gwleidyddiaeth. Tawodd dwrw'r mynydd diwydiannol, hyd yn oed yn sŵn ei apêl newydd i dwristiaeth gyda dyfodiad y canolfannau croeso a'r atyniadau treftadaeth, mae'r mynydd bellach yn rhywle i fynd i fyfyrio'n ddyfnach ar ein bywydau.